# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 22
24/08/20

## Peintio fframiau'r drysau

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Elin Bryn,
Jacqueline Ashworth & Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net

Dyma Moses yn galw arweinwyr Israel at ei gilydd, ac yn dweud wrthyn nhw, “Ewch i ddewis oen neu fyn gafr i'ch teulu, i'w ladd fel aberth y Pasg. Rhoi gwaed yr anifail mewn powlen, yna cymryd swp o frigau isop, ei ddipio yn y gwaed a'i frwsio ar dop ac ochrau ffrâm y drws. Yna does neb i fynd allan o'r tŷ tan y bore wedyn. Bydd yr ARGLWYDD yn mynd drwy wlad yr Aifft yn taro'r bobl. Ond pan fydd e'n gweld y gwaed ar ffrâm drws unrhyw dŷ, bydd yn pasio heibio'r tŷ hwnnw. Fydd e ddim yn gadael i farwolaeth ddod i mewn a tharo eich teulu chi.




“Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch plant yn gwneud hyn. Dyna fydd y drefn bob amser. Pan fyddwch yn cyrraedd y wlad mae'r ARGLWYDD wedi addo ei rhoi i chi, byddwch yn dal i gadw'r ddefod yma. Pan fydd eich plant yn gofyn, ‘Pam dych chi'n gwneud hyn?’ dwedwch wrthyn nhw, ‘Aberth y Pasg i'r ARGLWYDD ydy e, i gofio sut wnaeth e basio heibio tai pobl Israel ac achub ein teuluoedd pan wnaeth e daro gwlad yr Aifft.’” A dyma'r bobl oedd yn gwrando ar Moses yn plygu i lawr yn isel i addoli. Wedyn dyma nhw'n mynd i ffwrdd a gwneud yn union fel roedd yr ARGLWYDD wedi dweud wrth Moses ac Aaron.

Yna digwyddodd y peth! Ganol nos y noson honno, dyma'r ARGLWYDD yn taro meibion hynaf yr Eifftiaid, o fab hynaf y Pharo ar ei orsedd i fab hyna'r carcharor yn ei gell, a hyd yn oed pob anifail oedd y cyntaf i gael ei eni. A dyma'r Pharo yn deffro ganol nos, a'i swyddogion a phobl yr Aifft i gyd yr un fath. Roedd wylofain drwy'r wlad i gyd, am fod rhywun o bob teulu wedi marw. A dyma'r Pharo yn galw am Moses ac Aaron yng nghanol y nos, a dweud wrthyn nhw, “Ewch o ma! I ffwrdd â chi! Gadewch lonydd i'm pobl – chi a phobl Israel! Ewch i addoli'r ARGLWYDD fel roeddech chi eisiau. Ewch â'ch anifeiliaid i gyd fel roeddech chi eisiau. I ffwrdd â chi! Ond cofiwch ofyn am fendith arna i.”

*Exodus 12:21-32 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Dywedodd Duw wrth Moses ac Aaron, “Dywedwch wrth bobl Israel y byddaf yn mynd trwy’r Aifft ac yn lladd mab hynaf pob teulu yn y wlad heno. Er mwyn cadw eich teuluoedd yn ddiogel rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau hyn. Rhaid i chi ddewis oen neu fyn gafr gwryw, iach, blwydd oed i’w ladd a’i fwyta a dylech beintio fframiau’r drysau â gwaed yr anifail. Pan fydd wedi nosi bydd yn rhaid I bawb aros yn eu tai. Rhaid rhostio’r cig, ei bwyta fel pryd arbennig a chi, bobl Israel wedi gwisgo’n barod i fynd ar daith.



Fe fydd y gwaed ar fframiau eich drysau yn arwydd i mi mai pobl Israel sydd yn byw yna ac mi fyddan nhw’n ddiogel. Mi fydd y diwrnod hwn yn ddathliad arbennig i Dduw pob blwyddyn.”

Y noson honno daeth angel yr Arglwydd trwy’r Aifft a lladdodd fab hynaf pob teulu ond achubwyd pobl Israel a gadawodd Pharo i bobl Israel fynd yn rhydd.

# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:


1. Fedri di ddweud tair rheol sy’n dy gadw’n ddiogel ar y ffordd?
2. Beth ddywedodd Duw wrth Moses oedd angen i’r bobl ei wneud i gadw’n ddiogel?
3. Beth oedd y bobl i fod i’w fwyta? (gweler stori i’w lliwio)
4. Sut mae Duw yn dy gadw di’n ddiogel?



# Stori i'w lliwio

## Y Pasg – mae Duw yn cadw ei bobl yn saff

www.lambsongs.co.nz Jill Kemp (cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Roedd y Pharo'n gwrthod i'w gaethweision, plant Israel, adael yr Aifft. Gwnaeth Duw lawer o wyrthiau hyd nes i'r Pharo newid ei feddwl.




Dywedodd Duw wrth Moses, "Heno mae'n rhaid i bob teulu o bobl Israel fwyta oen wedi ei rostio, gyda saws perlysiau a bara croyw(fflat). Bydd y pryd hwn yn cael ei alw'n Wledd y Pasg."



"Cymerwch frigyn bach a pheintiwch waed yr oen o gwmpas ffrâm y drws. Bydd hyn yn eich cadw'n ddiogel rhag y salwch y bydd Duw'n ei anfon i dir yr Aifft," meddai Duw.




"Arhoswch yn eich tai oherwydd bydd angel Duw'n mynd heibio trwy'r ddinas. Oherwydd nad ydy Pharo'n gwrando a chaniatáu i blant Israel adael yr Aifft, bydd ei bobl yn mynd yn sâl ac yn marw."




Ond bydd y bobl yn y tai sydd â gwaed yr oen ar ffrâm eu drws ddim yn mynd yn sâl oherwydd eu bod nhw'n ymddiried yn Nuw ac yn ufudd iddo.



Felly fe wnaeth holl deuluoedd pobl Israel yr hyn roedd Duw drwy Moses wedi gorchymyn iddyn nhw ei wneud a gweddion nhw y byddai Duw'n eu cadw'n ddiogel. Cyn hir fe fydden nhw'n rhydd o afael y Pharo ac yn mynd i wlad newydd roedd Duw wedi ei haddo iddyn nhw.



Y noson honno aeth angel Duw drwy'r ddinas ac aeth hyd yn oed mab hynaf y Pharo'n sâl a bu farw. Ond fe wnaeth Duw gadw teuluoedd plant Israel yn ddiogel.



Ers yr adeg hynny, mae pobl Dduw wedi dathlu Gwledd y Pasg er mwyn diolch iddo am achub ei bobl. Gwnaeth Iesu hyn hefyd gyda ei ffrindiau.

# Gweddi fer


O Dduw, diolch i Ti am wrando ar bob gweddi.
Diolch i Ti dy fod yn gwybod sut ydw i'n teimlo.
Diolch i Ti am drefnu ffordd i mi gael bod yn ffrindiau gyda Ti.
Diolch am anfon Iesu i'r byd.
Amen.



# Posau

© Crafting the Word of God

Pa un o'r tri thŷ hyn sy'n wahanol i'r ddau arall?



## Datrys y symbol

Defnyddia'r cod i ddarganfod yr adnod.

a = ♋ b = ♌ c = ♍ ch = ♐

g = ♑ i = ♓ j = ♈ l = ●

r = ❒ s = ⬧ u = ◆

d = ♎ dd = ⌘ e = ♏

n = ■ o = □ p = ❑

w = ⬧ y = ⍓

♌⍓⌘ ❑⬧⍓ ♌⍓■■♋♑

_ _ _   _ _ _   _ _ _ _ _ _ _

⬧⍓'■ ♑♋●⬧ ♋❒ ♏■⬧'❒

_ _ ' _   _ _ _ _   _ _   _ _ _ ' _

♋❒♑●⬧⍓⌘ ⍓■ ♍♋♏●

_ _ _ _ _ _ _ _   _ _   _ _ _ _

♏♓ ♋♐◆♌

_ _   _ _ _ _

♈□♏● 2 ♋♎■□♎ 32

_ _ _ _ 2 _ _ _ _ _ 32

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | I | O | G | E | L | S | E | S | O | M | T |
| U | N | M | E | RH | Y | DD | I | E | O | C | E |
| W | S | O | D | N | A | R | W | G | R | A | U |
| O | E | Ï | I | FF | E | R | D | O | A | I | L |
| N | A | DD | D | S | O | E | Y | I | PH | T | U |
| DD | M | E | W | N | I | W | D | C | I | Ŷ | O |
| E | Ï | W | E | R | T | E | R | A | S | W | E |
| L | W | G | I | B | S | Ŷ | W | I | R | A | DD |
| W | B | DD | P | W | O | D | S | TH | A | O | Ï |
| G | M | A | R | Y | RH | G | W | A | E | D | S |
| Y | S | Ŷ | R | T | A | L | P | C | L | A | D |
| G | O | E | P | A | E | N | T | I | O | Y | C |

AROS
BARA
BWYTA
CAETHWEISION
CROYW
DIOGEL
DRWS
DUW
GWAED
GWEDDÏO
GWLEDD
GWRANDO
ISRAEL
MEWN
MOSES
OEN
PAENTIO
PASG
PLA
PHARO
RHOSTIO
RHYDD
TEULUOEDD
TŶ
YMDDIRIED



# Dolenni

Sgetsh bypedau - peintio'r fframau'r drysau https://youtu.be/YhJ8kVMt8OA




Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/cYIcnHBTtRo

Fideo o'r stori https://youtu.be/U6XE1O4gLtg






Cartŵn o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?v=1lwMt-KLkSE

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://ww w.youtube.com/channel/UCzhjwum9-XieYxdQY-r1OJw *(cliciwch 'Subscribe')*

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

# Sialensau

## Poster 'Cadw'n ddiogel'

Mae'n dal yn bwysig i ni fod yn ofalus i gadw'n iach. Gwna boster yn atgoffa pawb sut mae bod yn ofalus yn ystod cyfnod y Covid-19. Rho'r poster yn dy ffenest neu mewn lle amlwg yn y tŷ, neu tynna ei lun i'w roi ar dudalen 'Facebook' y clwb neu'r ysgol Sul.






## Teulu brigau

Beth am fynd ati i greu dy deulu allan o frigau gan ddefnyddio brigau, gwlân a llygaid symudol?



Beth am geisio gwneud model o'r stori gan ddefnyddio Lego?




# Crefft

## Addurn crog ar gyfer drws neu wal




**Byddi angen:**
Papur A4 (lliw neu wyn).
Ffon neu wialen syth, gwlân, siswrn, tâp selo, pren mesur, pensil, glud, pinnau ffelt (os fyddi di'n defnyddio papur gwyn)






1. Plyga'r papur A4 yn ei hanner dair gwaith.



2. Gyda'r bensil gwna amlinelliad o waelod cwpan blastig. Torra'r siâp allan.




3. Fe fydd gen ti 8 cylch.




4. Plyga'r cylchoedd yn eu hanner.



5. Bydd angen i ti ailadrodd camau 1 – 4 gan ddefnyddio tair tudalen o bapur A4.



6. Plyga'r papur A4 yn ei hanner dair gwaith.



7. Gwna lun o sgwâr 6cm x 6cm. Torra fo allan.



8. Bydd gen ti 8 sgwâr.




9. Plyga'r sgwariau yn eu hanner er mwyn gwneud trionglau.




10. Bydd angen i ti ailadrodd camau 6 – 9 gan ddefnyddio tair tudalen o bapur A4.




11. Torra 4 darn o wlân 55cm o hyd.



12. Estynna 4 cylch o'r un lliw. Â thâp selo glyna un edefyn o wlân ar hyd plyg un o'r cylchoedd.



13. Plyga'r cylch yn ei hanner a gluda gylch arall yn sownd ynddo. Gwasga'r cylchoedd yn gadarn yn ei gilydd.



14. Gluda'r 4 cylch i wneud siâp pêl.



15. Bydd angen i ti adael ychydig o ofod yna â thâp selo glyna'r edefyn o wlân ar hyd plyg un o'r sgwariau.




16. Plyga'r sgwâr yn ei hanner ac yna gluda sgwâr arall yn sownd ynddo. Gwasga'r sgwariau'n gadarn yn ei gilydd.



17. Gluda'r sgwariau i gyd yn ei gilydd.




18. Dal ati i roi'r siapiau'n sownd yn y 4 edefyn o wlân yn y ffordd rwyt ti'n dymuno i greu patrwm lliwgar.



19. Clyma'r gwlân â chwlwm yn un pen y pren ac yna ei lapio nes mae'r ffon wedi ei gorchuddio â'r gwlân.



20. Gwna ddolen gyda'r gwlân.



21. Clyma'r 4 edefyn o wlân yn y ffon gyda'r un faint o le rhyngddynt.

# Gweddi Greadigol


## Gweddi dros tŷ ni

**Byddi angen:**

- 6 ffon lolipop neu 6 stribed o gerdyn
- Papur
- Pensil neu bin ffelt
- Glud
- Siswrn

**Beth i'w wneud:**

- Gluda'r ffyn lolipop (neu'r stribedi cerdyn) ar y papur i greu siâp tŷ fel yn y llun
- Tynna lun o bawb sy'n byw yn dy dŷ ar y papur tu fewn i ffrâm y tŷ.
- Wrth i ti dynnu lluniau pawb, diolcha i Dduw amdanyn nhw a gofyn iddo fod gyda nhw a'u cadw'n ddiogel.






## Y groes goch

- Gwna groes fechan â'r brigau neu'r ffyn a'r eitemau eraill. Byddi angen defnydd coch hefyd.
- Cymera ruban coch a'i lapio am y groes.
- Cofia fod Iesu wedi marw drosot ti. Fo ydy'r oen fel yr un yn y stori. Mae'n ein hachub ni ac yn ein gwneud yn rhydd oddi wrth ein pechodau.
- Gofynna i Dduw dy helpu di i ddeall sut y gall Iesu dy achub a dy wneud yn rhydd. Mae'r ruban coch a'r groes yn symbol o elusen y Groes Goch.
- Gweddïa am wirfoddolwyr y Groes Goch (Red Cross) yr wythnos hon.

# Rysáit

## ‘Koftas’ cig oen



**Bydd angen:**

- 500g o friwgig cig oen
- 2 lwy de o goriander
- 2 clof (ewin) garlleg wedi’i falu’n fân
- 1 llwy de o ground cumin
- 1 llwy de o baprika
- 1 llwy de o groen lemwn (wedi’i ratio)
- 1 llwy de o ddail mint wedi’i torri’n fân
- 8 sgiwer pren
- ychydig o olew





**Beth i’w wneud:**

1. Rho’r popty i gynhesu ar 180˚C (Ffan).
2. Cymysga’r holl gynhwysion gyda’i gilydd nes bod popeth wedi dod at ei gilydd yn llwyr.
3. Rhanna’r gymysgedd yn 8 pêl fach.
4. Rholia’r peli ar fwrdd nes eu bod nhw fel selsig hir.
5. Rho’r sgiwer drwy ganol y ‘selsig’ hir nes dy fod yn gweld y pren yn dod allan ar yr ochr arall.Gwna’r un fath gyda’r 8 arall. Dyma’r ‘koftas’.
6. Rho ychydig o olew dros y ‘koftas’, yna rho nhw ar ddysgl neu dun popty addas. Rho’r  sgiwer i orffwys ar bob ochr i’r ddysgl neu’r tun, fel nad yw’r ‘kofta’ yn cyffwrdd eu gwaelod.
7. Rho nhw yn y popty am hanner awr, nes bod y cig wedi brownio’n ddigonol.



# Canu

Bydd pwy bynnag sy'n galw ar enw'r Arglwydd,
bydd pwy bynnag sy'n galw ar enw'r Arglwydd,
bydd pwy bynnag sy'n galw ar enw'r Arglwydd
yn cael ei achub.



Joel dau, adnod trideg dau,
Joel dau, adnod trideg dau,
Joel dau adnod trideg dau,
Joel dau, adnod trideg dau.

Cân Hawlfraint  2020 Andy Hughes

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/cYIcnHBTtRo
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

# Gemau

## Gêm 'laser'

**Byddi angen:**
- Tua 10 llath o wlân neu linyn
- Man cychwyn a man gorffen
- Bocs o 'drysor' i'w gasglu gan yr Eifftwyr
- Amserydd
- Lleoliad addas – mewn ystafell neu yn yr "hall." Y tu allan gyda llefydd i roi pethau'n sownd


**Adeilada'r ddrysfa (maze):**
- Cei gordeddu'r gwlân o gwmpas unrhyw beth fel handlenni drysau, bocsys, dodrefn, teganau mawr, unrhyw beth golew o fawr i angori'r llinyn neu'r gwlân.
- Dos ati i igam ogamu'r llinyn neu'r gwlân yn uchel ac yn isel yn y llefydd rwyt ti wedi eu dewis.
- Gosoda dy focs o 'drysor' ym man gorffen y ddrysfa.



**Sut i chwarae:**
- Casgla'r 'trysor' ar ddiwedd y ddrysfa drwy gropian o dano heb gyffwrdd y llinyn laser.
- Amsera dy hun yn gwneud hyn nifer o weithiau neu gelli gystadlu yn erbyn aelod o'r teulu.

## Gêm y traed

**Bydd angen:**
- Tynna lun dy draed ar bapurau fel y gweli di yn y lluniau isod. Gwna ddigon i wneud llwybr (tua 12 papur).
- Tâp i roi'r papurau'n sownd yn y llawr.
- Digon o le i greu'r llwybr.
- Amserydd – oriawr neu ffôn



**Sut i chwarae:**
- Gosoda'r traed i greu llwybr ar rho nhw ar onglau gwahanol fel sydd yn y llun.
- Defnyddia'r tâp i'w rhoi yn sownd yn y llawr.
- Mae chwaraewr yn mynd ar hyd y llwybr gan rhoi ei draed yn union fel ag y maen nhw ar y papur.
- Os yw'n glanio'n anghywir â'i draed rhaid cychwyn eto.
- Pa mor gyflym fedri di fynd ar hyd y llwybr yn gywir?